Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 451 IONAWR 2023 | AM DDIM

## DYFRIG THOMAS

Tristwch yw nodi marwolaeth Dyfrig Thomas, Llanelli, sefydlydd Siop Ty Tawe. Prynwyd adeilad Ty Tawe ym mis Tachwedd, 1986, gyda sefydlu siop Gymraeg yn un nod. Erbyn mis Mawrth 1987, daeth Dyfrig, a oedd yn berchennog Siop y Werin, Llanelli, i'r adwy.

Roedd yn 45 oed ar y pryd, ac wedi sefydlu Siop y Werin yn 1970. Ar 16 Mai 1987 daeth torf o 200 i agoriad y siop. Meddai Dyfrig ar y pryd, "Chwyna i ddim os bydd pob dydd Sadwrn fel hyn."

Cafodd gymorth Lynwen Jones o Dreforys i redeg y siop. Cynhaliodd Dyfrig y siop am flynyddoedd lawer. Roedd yn barod ei gymwynas a'i sgwrs, a'i wybodaeth am bopeth Cymraeg yn helaeth.

Bu e'n cynnal dosbarthiadau i ddysgwyr am flynyddoedd. Bu'n gynghorydd tref yn Llanelli o 1999 i 2004 ar gyfer Ward Ty Isha, ac yn 2008 daeth yn gynghorydd tref Ward Bigyn, tan 2017. Bu'n Faer Llanelli yn 2010 a 2011.



Roedd yn weithgar iawn gyda Phlaid Cymru, a bu'n llawen pan enillodd Helen Mary Jones sedd Llanelli yn etholiad cyntaf Cynulliad Cymru yn 1999.
Trwy agor ei siop yn Nhy Tawe, cyfrannodd Dyfrig yn helaeth at lwyddiant ariannol a chymdeithasol y Ganolfan.
Llun:. Dyfrig a Lynwen Jones ar fore agor y siop

-Heini Gruffudd

## FFARWEL I CHAPLINS




Mae busnes George Chaplin & Sons, siop deuluol boblogaidd iawn yng Nghilâ, wedi cau ei drysau am y tro olaf ar ôl bron canrif o wasanaethu cymunedau Sgeti a Chilâ. Daeth yr amser i'w pherchennog Phil Chaplin ymddeol ar ôl pwl o afiechyd ychydig yn ôl, er mawr siom iddo ef ei hun yn ogystal â llu o gwsmeriaid ffyddlon yn yr ardal. Byddwn yn gweld eisiau ei gyfarchion Cymraeg - bore da, diolch yn fawr i chi, da bo chi, yn ogystal â 'Good morning young man' i ddynion yn eu saithdegau! Roedd llawer o dynnu coes a chwerthin yn siop Chaps!

Sefydlwyd y busnes yn 1926, blwyddyn y streic gyffredinol drwy wledydd Prydain, ac enillodd glod am ddarparu bwydydd o'r ansawdd uchaf mewn awyrgylch hynod gyfeillgar. Bu dwy siop ar un adeg - gyda Sue, chwaer Phil, yn rhedeg un Sgeti, ond fe gaeodd honno rai blynyddoedd yn ôl, gan adael yr un siop yn unig, ym maelfa (precinct) siopa Cilâ. Yn y gorffennol clywyd llawer o Gymraeg ymhlith y cwsmeriaid yn Sgeti a gwerthwyd Wilia yno bob mis am flynyddoedd.

Dymunwn ymddeoliad hapus iawn i Phil a Maria yn eu cartref yn Ystradgynlais, ble maen nhw wrth eu boddau yn byw. Bellach bydd mwy o amser i Phil berffeithio'i Gymraeg!

- Dafydd Williams

## NOSON DEYRNGED I ANN ROSSER

Yn 2006 sefydlwyd y Gymdeithas hon ac un o'r aelodau ymroddedig o'r cychwyn oedd Ann Rosser. Yn enedigol o Lwynbrwydrau, Llansamlet, bu Ann yn athrawes mewn ysgolion uwchradd cyn mynd ymlaen i ddarlithio yn y Gymraeg yng Ngholeg Addysg Caerdydd a Choleg y Drindod Caerfyrddin. Wrth ymddeol dychwelodd i'w bro enedigol, ymgartrefu yng Ngellifedw ac ymdoddi ym mywyd Cymreig a Chrefyddol yr ardal. Derbyniodd y cyfrifoldeb i sicrhau grantiau ariannol gan osod y Gymdeithas ar seiliau cadarn. Hi oedd ysgrifennydd y Pwyllgor Rhaglen ac roedd ei chysylltiadau yn gymorth wrth sicrhau siaradwyr diddorol a threfnu digwyddiadau wrth fodd yr aelodau.

Bu farw Ann ar Hydref 20fed, 2022 a chydymdeimlwn â'r teulu wrth golli un oedd yn annwyl iawn ganddynt. Trefnodd y Gymdeithas Noson Deyrnged i Ann a daeth gynulleidfa niferus i Festri'r Tabernacl gan gofio'n arbennig am ei chyfraniad at Gymreictod Abertawe a'r Cwm.

Rhannodd un o'r aelodau, Marilyn Roberts, atgofion am eu cyfnod yn naws Seisnigaidd "Swansea High School for Girls." Cafwyd teyrngedau gan Huw Tregelles Williams, Robat Powell a Dewi Lewis. Gyda chydweithrediad Tinopolis dangoswyd clipiau o gyfraniad Ann at raglenni Prynhawn Da - clipiau oedd yn dangos diddordeb Ann mewn hanesion lleol.

Roedd Ann yn ddiacones ffyddlon yng Nghapel y Tabernacl ac yn gadeirydd ar y Diaconiaid tan yn ddiweddar. Roedd ei Ffydd yn bwysig iawn iddi hi a gwelwyd hyn yn glir yng nghyfraniad Ann at y ffilm ar hanes Tabernacl yn y gymuned 'Tua'r Goleuni.' Bu'n aelod ffyddlon o Merched y Wawr gan gyfrannu at 'Y Wawr,' cylchgrawn y Mudiad.

Cofnododd hanes Ysgol Gymraeg Lộn Las mewn llyfr ar gyfer penblwydd yr ysgol yn Hanner Cant. Gwasanaethodd ar Fwrdd Llywodraethu yr ysgol gan dreulio cyfnod yn y gadair. Un a gafodd ddylanwad mawr ar Gymreictod Ann yn ystod ei phlentyndod oedd ei Ynti Carlen. Cofnodwyd hi ar ffilm yn rhannu ei hatgofion am hen ysgol Lôn Las yn 1912 gyda disgyblon Lộn Las 1992.

Cyflwynodd y Gymdeithas Gymraeg roddion tuag at elusennau Marie Curie a Thŷ Hafan er cof am Ann a diolchodd ei nai, y canwr Neil Rosser, am y noson ac am y cyfraniadau. Ar ddiwedd y noson, adroddodd y Prifardd Robat Powell y casgliad o englynion a sgrifennwyd mewn teyrnged i Ann gan Huw Dylan Owen.

-David Gwyn John

## TEIGR YN RHUO UNWAITH ETO!

### -DAVID GWYN JOHN

Yn Amgueddfa Fysiau a Chanolfan Dreftadaeth Abertawe mae Teigr yn cysgu. Nid anifail ond bws ydy'r Teigr – 'Leyland Tiger' oedd yn newydd yn 1947 i gwmni Llynfi Motors ym Maesteg. Mae GTX 437 yn 75 oed eleni. Prynwyd y bws o'r cwmni gan David Gwyn John yn 1972. Cyflwynodd y bws i Amgueddfa Abertawe yn 1984.

Mae'r bws yn unigryw. Cwmni Neath Coachbuiders , o Gilfrew ger Castell Nedd, adeiladodd corff newydd i'r bws yn 1957- un o bedwar a adeiladwyd gan y cwmni a'r unig un sydd wedi goroesi. Erbyn hyn mae'r bws yn yr Amgueddfa Fysiau sydd yn Winchwen.

Prin iawn yw'r achlysuron pryd y bydd y bws yn gadael yr Amgueddfa ac yn cario teithwyr. Digwyddodd hyn yn ddiweddar wrth ddathlu'r digwyddiad nodedig yn hanes y bws. I gyd-fynd â'r digwyddiad mae'r Amgueddfa wedi darparu nifer cyfyngedig o hanner cant yn unig o fygiau dwyieithog, sydd yn dangos llun o'r bws ac yn 'Teyrnged i'r Teigr.



Llun uchod: David Gwyn a Rhys ei ŵyr yn dangos mwg Rhif 1 a gyflwynwyd i David Gwyn. Mae'r mygiau ar werth am £10 oddi wrth Ysgrifennydd yr Amgueddfa, David Roberts (01792 732832) neu David Gwyn John (01792 773507).

## CROESO CYNNES YN YSGOL TAN-Y-LAN

Erbyn hyn mae Ysgol Gymraeg Tan-y-lan wedi ymsefydlu'n braf yn ei chartref newydd yn y Clâs a chafodd aelodau'r Gymdeithas y cyfle i ymweld â'r ysgol ym mis Tachwedd. Cawsom groeso tywysogaidd gan y Prifathro, Mr Berian Jones, y staff a'r plant. Roedd y cyfleusterau yno'n wych a'r golygfeydd o'r ysgol i fyny ac ar draws y cwm yn gofiadwy.Mae disgyblion Ysgol Gymraeg Tan-y-lan yn ffodus iawn!

-David Gwyn John



Llun: Y croeso i'r Gymdeithas yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tan-y-lan

## CINIO NADOLIG Y GYMDEITHAS

-DAVID GWYN JOHN

Cynhaliwyd ein Cinio Nadolig yng Nghlwb Golff Bae Langland ar brynhawn Iau Rhagfyr 15fed. Gan nad yw ein cartref arferol yn y Tabernacl ar gael am flwyddyn, cynhelir y cyfarfod agoriadol yn Festri Seion Newydd, Treforys am 7.00 y.h. nos Iau 19fed Ionawr. Ein gwestai yw'r canwr a chynhyrchydd teledu Delwyn Sion, arweinydd ar Fethlehem, Gwaelod y Garth.

Mae'r Gymdeithas yn cyfarfod ar y drydedd nos Iau o'r mis. Gellir ymaelodi am £10 y flwyddyn neu £2 y cyfarfod. Mae croeso i holl ddarllenwyr a ffrindiau Wilia wrth gwrs, ac edrychwn ymlaen at gyhoeddi rhaglen lawn 2023 yn y rhifyn nesaf.

Yn y cyfamser mae mwy o wybodaeth am Gymdeithas Gymraeg Treforys ar gael oddi wrth David Gwyn John (01792 773507).

## CLWB DARLLEN TŶ TAWE

-ELIN MEEK

Mae Cylch Darllen Tŷ Tawe wedi cael cyfarfodydd bywiog dros y misoedd diwethaf, yn trafod cynnyrch Eisteddfod Tregaron, sef Rhyngom gan Sioned Erin Hughes a Capten gan Meinir Pierce Jones, yn ogystal â Cicio'r Bwced gan Marlyn Samuel. Mae hi bob amser yn ddiddorol clywed safbwyntiau cwbwl wahanol wrth drafod.

Beth am ymuno â ni yn 2023? Gallwch bicio i mewn ac allan, yn ôl eich diddordeb darllen, a manteisio ar ostyngiad o 10% ar lyfrau'r Cylch yn Siop Tŷ Tawe.

Rydyn ni'n cwrdd am 7:30 ar ail nos Lun y mis yn Nhŷ Tawe.

Dyma lyfr mis Chwefror:

13 Chwefror Pridd, Llŷr Titus, Gwasg y Bwthyn, £8.95




Barn...

## 'THAT WOULD BE TELYN'

-ADOLYGIAD GAN ROB EVANS

Ym mis Hydref siaradwraig gwadd Cymdeithas Hanes Bro Ogwr oedd y delynores Delyth Jenkins ac roedd hi'n sôn am ei thaith ar hyd llwybr arfordir sir Benfro. Nes i fwynhau ei stori gymaint nes i brynu'r llyfr!

Rŵan mae llawer o bobl wedi gwneud y daith a dw i'n siŵr y bydden nhw'n gallu rhoi sgwrs digon diddorol. Digon diddorol ond dim cystal. Ychydig iawn ohonyn nhw byddai wedi cerdded yn y ffordd oedd Delyth wedi cerdded achos roedd hi wedi dilyn traddodiad yr hen feirdd yn crwydro'r wlad ac yn diddanu pobl ar y ffordd.


Ym 2012 wnaeth Delyth benderfynu gwneud y daith o Landudoch i Lanrath efo delyn ar ei chefn, 186 o filltiroedd. Mae darnau o'r llwybr yn eithaf hawdd ond llawer yn anodd, a hynny heb delyn ar eich cefn. Weithiau mae'r tywydd yn ffafriol tu hwnt ond weithiau, neu yn aml pan oedd Delyth yn cerdded, mae'r tywydd yn anffafriol dros ben. Doedd y daith ddim yn fater o ddewis dyddiau braf ac osgoi tywydd garw, sut bynnag oedd y tywydd roedd Delyth yn cerdded.

Roedd rhaid, felly, cael dillad addas ar gyfer bob tywydd, bwyd am y diwrnod a dilledyn mawr gwrth ddŵr i orchuddio popeth. Roedd hi wedi mynd i siop 'Mobility' a gofyn am y clogyn mwyaf, clogyn oedd yn ddigon mawr i orchuddio hi, y delyn ar ei chefn, a'r bag i gario ei dillad sbâr o'i blaen hi. Coch oedd lliw'r clogyn ac ar ddiwedd y llyfr mae hi'n ei ddisgrifio fel 'my teletubby red cape'. Mae ei synnwyr digrifwch yn dod allan trwy'r llyfr i gyd, beth bynnag yw'r anawsterau. Heb yr agwedd yna byddai rywun wedi rhoi'r gorau i'r ymdrech yn fuan iawn.

Felly beth yw enw'r llyfr? Wel, That would be Telyn!


Wrth gwrs nid rhywbeth dim ond i achosi anhawster oedd y delyn, roedd pwrpas i'r offeryn. Roedd hi am gynnig ei ganu i unrhyw un oedd hi'n gweld ar y daith ac wrth wneud hynny roedd hi wedi ychwanegu at y pleser roedd y cerddwyr ffodus iawn roedd hi'n gweld. Dw i'n siŵr bod nhw dal yn siarad am y profiad. Roedd hi'n canu am ei swper hefyd.

Mae'r llyfr wedi cael ei ysgrifennu yn Saesneg ac mae'n bleser pur i ddarllen, mae'n gwneud i chi wenu wrth ei ddarllen, i chwerthin yn aml iawn ac weithiau yn eich llenwi efo emosiwn. Mae'n eich rhoi chi mewn penbleth, mae'n anodd rhoi'r llyfr i lawr ond dach chi ddim eisiau ei orffen. Nes i setlo ar ddarllen dwy bennod pob diwrnod ac felly sicrhau bythefnos o bleser pur.



# TEYRNGED I HUW REES

-HEINI GRUFFUDD



Bu farw Huw Rees, a oedd yn organydd y Trinity, Sgeti, am flynyddoedd lawer.

Ganwyd e yn Nhreforys, a chafodd yrfa hir o hanner can mlynedd yn organydd ym Mynydd-bach a'r Trinity. bu'n arweinydd Cymdeithas Operatig Abertawe am bymtheng mlynedd, ac yn arweinydd côr Capel Soar am ddeng mlynedd.

Arweiniodd ugeiniau o gymanfaoedd canu yng Nghymru a ledled y byd.

Cychwynnodd ei yrfa gerddorol yn ifanc, gan ennill yr unawd tenor yn yr eisteddfod genedlaethol dair gwaith.

Bu'n arwain Côr Orpheus Treforys a chychwynnodd gyda'r côr hwnnw pan oedd Ivor Sims yn arweinydd.

Bu'n bennaeth cerdd yn nifer o ysgolion uwchradd Abertawe.

Bach oedd ei hoff gyfansoddwr, ac emynau Caradog Roberts a Joseph Parry i eiriau Elfed a Williams Pantycelyn oedd ei ddiléit.

Bydd coffa da amdano ym myd cerddorol Abertawe a'r cyffiniau.

# APÊL AM SIARADWYR CYMRAEG I SGWRSIO GYDA DYSGWYR

-ANGHARAD PRYS

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn chwilio am siaradwyr Cymraeg i ymuno yn eu cynllun 'Siarad', sy'n paru siaradwyr Cymraeg gyda dysgwyr.

Mae cannoedd o ddysgwyr ledled Cymru eisoes yn rhan o'r cynllun, ac wedi eu paru, ond mae cannoedd mwy ar restr wrth gefn, yn aros i gael eu paru.

Nod y cynllun ydy rhoi cyfle i ddysgwyr fagu hyder trwy sgwrsio trwy gyfrwng y Gymraeg a'u cyflwyno i gyfleoedd i ddefnyddio eu Cymraeg yn lleol.

Un o'r siaradwyr Cymraeg sydd wedi bod yn rhan o'r cynllun yw Margaret Davies o Gaerfyrddin. Dywedodd,

"Mi wnes i a fy mhartner siarad, Gwenda, gyfarfod trwy gydol y cyfnod y clo ac mi oedd hynny yn fendigedig gan ei bod yn gwmni difyr. Mi oedd hi mor awyddus a mor dda, mi oedd yn bleser cael sgwrs fach. Dw i wedi gwneud ffrind oes.

"Mae unrhyw un sydd â diddordeb yn yr iaith ac ym mharhad yr iaith yn mynd i weld pa mor bwysig yw'r cynllun. Mae'n rhoi rhyw wefr i chi pan 'dych chi'n gweld nhw'n dod mlaen gyda'i Cymraeg."

Ychwanegodd Gwenda Sippings, partner siarad Margaret, "Y peth gorau i mi am y cynllun Siarad yw ei fod yn rhoi hyder i chi gael sgwrs werthfawr, nid dim ond sgwrs sydyn wrth basio yn y stryd. Mae'n hyfryd cael rhywun 'dw i'n ymddiried ynddi, sy'n fodlon fy rhoi ar ben ffordd.

"Mae'r cynllun Siarad wedi bod yn gymaint o help i mi groesi'r bont rhwng dosbarthiadau a'r gymuned Gymraeg. Mae'n bwysig iawn ein bod ni'n clywed iaith naturiol ac mae'n gymaint o help cael sgwrsio gyda rhywun sy'n rhugl.

Ychwanegodd Helen Prosser, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg, "Wrth ddysgu unrhyw sgil newydd, mae angen ymarfer. A dyw dysgu iaith ddim yn eithriad.

"Felly, roeddem ni eisiau rhoi cyfle i siaradwyr newydd sgwrsio rhwng gwersi ond hefyd eu cyflwyno i gyfleodd yn y gymuned i siarad Cymraeg.

"Rydym yn gofyn am ymrwymiad o 10 awr – ac mi all hynny fod tra'n sgwrsio dros baned, mewn gêm bêl-droed, yn y côr, wrth fynd am dro neu lle bynnag sy'n apelio."

Mae galw am bobl ar draws Cymru ac mae modd cofrestru trwy ymweld â
gwefan dysgucymraeg.cymru neu
e-bostio swyddfa@dysgucymraeg.cymru

## CYNHYRCHIAD NEWYDD ARAD GOCH YN DOD I DŶ TAWE

Cynhyrchiad newydd o un o glasuron Arad Goch, mae BLE MAE'R DAIL YN HEDFAN yn ddrama ryngweithiol i blant bach 3-9 oed a'u teuluoedd (gall plant iau ddod gyda'r teuluoedd hefyd).
Gan ddechrau y tu allan, neu yng nghyntedd y theatr/neuadd, mae'r gynulleidfa yn symud i ofod caeëdig, tawel a diogel ble maen nhw'n helpu'r cymeriadau i greu cartref newydd gyda deunyddiau naturiol - dail, brigau a pren.
Mae'n ddrama hwyliog a cherddorol, weithiau'n ddoniol a dro arall yn ymdrin ag emosiynau plant, gyda themâu am gyfeillgarwch, cydweithio a gofal – gan annog y blant i fynd ati i fod yn greadigol yn eu ffordd eu hunain.
Mae'r ddrama wedi teithio'n helaeth yng Nghymru, De Corea, Tiwnisia, Catalonia a Ffrainc.
Bydd modd gweld y cynhyrchiad yn Nhŷ Tawe ar Chwefror 18fed - manylion pellach i ddilyn.

## CLWB LLYGOD BACH

Ymunwch gyda'n Clwb Llygod Bach misol i blant o dan bum mlwydd oed yn Amgueddfa'r Glannau!
Ail ddydd Gwener y mis,
10.30 - 12.30




## GIG PEDAIR TŶ TAWE

Yn anffodus ni fydd Siân James yn gallu perfformio gyda Pedair mis nesaf oherwydd salwch, brysia wella iddi! Ond rydym yn ffodus o gael cwmni hynaws Casi a fydd yn ymuno â Gwenan, Meinir a Gwyneth ar gyfer perfformiad unigryw o ganeuon Pedair.




## CLYBIAU PONTIO

Mae Menter Iaith Abertawe yn falch i gyhoeddi dyddiadau nesaf ein clybiau pontio "Clwb Gŵyr" a "Clwb Bryn Tawe". Mae'r sesiynau yma yn benodol ar gyfer disgyblion blwyddyn 6 ac yn cynnig cyfleoedd ychwanegol iddynt ymweld â'u hysgol newydd, cwrdd â ffrindiau newydd o ysgolion gwahanol, a mwynhau'r Gymraeg mewn cyd-destun anffurfiol a hwyl. Mae sesiynau mis Chwefror ar gael i archebu nawr trwy'r ddolen ganlynol: menterabertawe.org/archebu








Mae ein Clwb Cerddoriaeth yn dychwelyd wythnos nesaf! Dewch i ddatblygu sgiliau fel cyfansoddi a recordio.
Our weekly Music Club returns next week! Come develop skills such as song writing and recording.

Cofrestru: menterabertawe.org/archebu
Gwybodaeth bellach: dafydd@menterabertawe.org




# DYDDIADAU I'R DYDDIADUR!

03.02 – Bwncath + Bwca (Tŷ Tawe-LLAWN)
04.02 – Pedair + Casi (Tŷ Tawe)
10.02 – Candelas (Tŷ Tawe)
18.02 - Ble Mae'r Dail yn Hedfan (Tŷ Tawe, Theatr Arad Goch)

03.03 - Mari Mathias (Mission Gallery)
16.03 - Cariad yn Oes y Gin (Taliesin, Theatr Bara Caws)

Tocynnau: www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe







Rydym yn falch iawn i gyhoeddi bydd Candelas yn ymuno gyda ni yn Tŷ Tawe i ddathlu Dydd Miwsig Cymru mis nesaf!




Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Hydref.

Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Chwefror erbyn Ionawr 27ain trwy ebostio Anys at:

**datblygu@menterabertawe.org**

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government